**COFNODION O GYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 15FED O FAI 2018 YN YSGOL GYNRADD CWM Y GLO.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Goronwy Hughes, Clifford Williams, Meirwen Lloyd, Llywelyn Williams, Rhys Parry, Haf Williams, Phil Roberts, Cemlyn Jones

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Richard Robinson, Avril Jones, Martin Jones, Beca Brown.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**CLERC:** Meirion Jones

1. **I ethol Cadeirydd am flwyddyn 2018 / 2019**

   Etholwyd y Cynghorydd Haf Williams yn Gadeirydd ar gyfer 2018 / 2019.

2. **I dderbyn datganiad gan y Cadeirydd o dderbyn y swydd**

   Fe dderbyniodd y Cynghorydd Haf Williams swydd Cadeirydd a cymerodd y gadair am weddill y cyfarfod blynyddol.

3. **I ethol Is-Gadeirydd am flwyddyn 2018 / 2019**

   Nid oedd yr is-gadeirydd ar gyfer 2017 / 2018 yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heno ac roedd wedi ymddiheuro. Fodd bynnag, mae wedi datgan ei bodlonrwydd i gario ymlaen fel is-gadeirydd am 2018 / 2019 os byddai'r Cyngor yn fodlon. Penderfynwyd ethol y Cadeirydd Avril Jones yn is-gadeirydd ar gyfer 2018 / 2019**.**

4. **I greu pwyllgor – Cyllid**

   Penderfynwyd creu Pwyllgor Cyllid

5. **I benodi aelodau i'r pwyllgor Cyllid**

   Etholwyd y canlynol ar y Pwyllgor Cyllid – Y Cynghorwyr Hefin Jones, Goronwy Hughes, Avril Jones, ynghyd a'r Cadeirydd a'r Clerc.

6. **I greu pwyllgor – Y Fynwent**

   **Penderfynwyd:** Creu Pwyllgor Y Fynwent

7. **I benodi aelodau i bwyllgor Y Fynwent**

Etholwyd y canlynol ar Bwyllgor y Fynwent – Y Cynghorwyr Hefin Jones, Goronwy Hughes, Clifford Williams, Richard Robinson, Phil Roberts ynghyd a'r Cadeirydd a'r Clerc

**8. I greu Pwyllgor Cynllunio**

**Penderfynwyd:** Peidio creu Pwyllgor Cynllunio, ond y Clerc i gylchredeg manylion am geisiadau sydd angen sylw neu farn cyn dyddiad bydd y Cyngor Cymuned yn cyfarfod. Mewn achosion o geisiadau sylweddol, yna i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor**.**

**9. I benodi aelodau i'r Pwyllgor Cynllunio**

Dim yn berthnasol

**10. I greu Pwyllgor Hamdden**

**Penderfynwyd:** Creu Pwyllgor Hamdden

**11. I benodi aelodau i'r Pwyllgor Hamdden**

Etholwyd Llywelyn Williams, Cemlyn Jones, Clifford Williams, Beca Brown

**12. I greu unrhyw bwyllgor arall fel tybia'r Cyngor sydd yn briodol**

**Penderfynwyd:** Peidio creu unrhyw bwyllgor arall ar hyn o bryd

**13. I apwyntio aelodau i'r pwyllgor hynny**

Dim yn berthnasol

**14. I ethol cynrychiolydd ar Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Etholwyd y Cynghorydd Llywelyn Williams i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug am 2018 / 2019.

**15. I ethol cynrychiolydd ar Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Cwm y Glo**

Adroddwyd mai y Cynghorydd Alan Pritchard oedd wedi cynrychioli Cyngor ar yr uchod yn y gorffennol, ond oherwydd cyflwr ei iechyd diweddar, cynigiodd y Cynghorydd Cemlyn Jones gymryd ei le am nawr.

**Penderfynwyd:** Etholwyd y Cynghorydd Cemlyn Jones fel cynrychiolydd ar Fwrdd llywodraethwyr Ysgol Cwm y Glo am nawr**.**

**16. I ethol cynrychiolydd ar Ymddiriedolaeth Dr Morris**

Adroddwyd hanes yr elusen yma gan y Cynghorydd Goronwy Hughes oherwydd mai ef sydd wedi bod yn cynrychioli'r Cyngor. Eglurodd ymhellach nad oedd wedi clywed dim gan yr elusen.

**Penderfynwyd:** Etholwyd y Cynghorydd Goronwy Hughes i gynrychioli'r Cyngor ar yr elusen a cytunodd holi am weithgareddau'r elusen.

**17. I ethol cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru**

Etholwyd y Cynghorwyr Meirwen Lloyd a Phil Roberts i fynychu cyfarfodydd Unllais Cymru**.**

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad:**